# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Adolygiad o wasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru 2017–18

**Annwyl Syr / Fadam,**

Rwy'n ysgrifennu er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am adolygiad Cymru gyfan o wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac i ofyn yn garedig am eich help.

**Beth yw diben yr adolygiad?**

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i adolygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, er mwyn gwirio a yw pobl yn derbyn y gofal, y driniaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei ddefnyddio i asesu'r gwaith o weithredu'r strategaeth 'Gweithio gyda'n gilydd i Leihau Niwed' (2016–18), a sut mae'r safonau craidd ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (2010) wedi'u hymgorffori ledled Cymru.

Bydd yr adolygiad yn edrych ar y themâu allweddol canlynol:

1. Mynediad ac argaeledd – 'A oes modd i bobl gael mynediad at y driniaeth sydd ei hangen arnynt?'
2. Pa mor dderbyniol yw'r dewisiadau o ran triniaethau – 'A yw'r driniaeth sydd ar gael yn addas ar gyfer unigolion?'
3. Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – 'A yw'r driniaeth wedi'i theilwra i anghenion pobl?'
4. Diogelu – 'Sut mae pobl, eu teuluoedd a'r rhai sydd o'u cwmpas yn cael eu diogelu?'
5. Ôl-ofal a chymorth parhaus – 'Beth sy'n digwydd ar ôl i bobl orffen eu triniaeth?' Pa gymorth parhaus sydd ar gael? Beth sy'n digwydd os ydynt yn cael atgwymp?

**Pa wasanaethau rydym yn canolbwyntio arnynt?**

Yn bennaf, rydym yn canolbwyntio ar bob gwasanaeth camddefnyddio sylweddau sydd yn haenau 2 i 4, sy'n darparu rhyw fath o gymorth neu driniaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth dros 18 mlwydd oed ledled Cymru. Mae hyn ar draws pob sector waeth

beth fo'r trefniadau o ran cyllid. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n darparu cymorth/triniaeth i bobl sy'n camddefnyddio sylweddau yn y gymuned, yn hytrach na mewn carchardai a gwasanaethau prawf.

**Pam mae angen eich help arnom**

Er mwyn ein helpu i gynnal yr adolygiad hwn, hoffem glywed am brofiadau amrywiaeth eang o ddefnyddwyr a staff gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar bob lefel.

*Digwyddiadau*

Byddwn yn ymweld â phob un o'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal, ac yn cynnal grwpiau ffocws, un ar gyfer staff ac un ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

Yn ystod y digwyddiadau hyn, byddwn yn gofyn cwestiynau agored am bob un o'r pump o themâu allweddol a nodir uchod, a hoffem glywed eich safbwyntiau gonest ynghylch pob pwnc. Er mwyn galluogi'r sgwrs i lifo, byddwch yn cael eich rhannu i grwpiau bach gydag un o'n hwyluswyr.

*Arolygon cenedlaethol*

Rydym hefyd wedi lansio arolygon cenedlaethol ar gyfer defnyddwyr a staff gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac rydym yn gobeithio clywed gan gymaint o bobl ledled Cymru â phosib. Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, a wnewch chi annog staff a defnyddwyr eich gwasanaeth i gwblhau'r arolygon hyn. Cewch ddolenni i'r arolygon isod.

Arolwg defnyddwyr gwasanaeth – Saesneg / English

Arolwg defnyddwyr gwasanaeth – Cymraeg

Arolwg staff – Saesneg / English

Arolwg staff – Cymraeg

Cysylltwch â ni os hoffech gael copïau caled o'r arolygon hyn.

**Y budd i chi**

Bydd y grwpiau ffocws hyn yn gyfle gwych i gymryd rhan yn yr arolwg pwysig hwn a dweud eich dweud. Byddwn yn defnyddio'r prif faterion sy'n codi yn y digwyddiadau hyn i ffurfio rhan o'n hadroddiad Cymru gyfan ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Bydd eich adborth yn ddienw ac ni fydd dim yn yr adroddiad y gellir ei gysylltu â chi. Byddwn yn defnyddio'r adroddiad i rannu arfer da a gwneud

argymhellion i Lywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal a gwasanaethau er mwyn iddynt gymryd camau gweithredu a gwella pethau ar gyfer pobl ledled Cymru.

Byddwn yn cynnig 'te prynhawn' yn ystod y digwyddiad, gyda lluniaeth ac amrywiaeth o gacennau a theisennau ar gael.

Byddwn hefyd yn ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol a gafwyd wrth deithio ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n dod i'r digwyddiad.

**Sut gallwch gymryd rhan yn ein digwyddiadau**

Bydd gennym le ar gyfer 30 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 40 o aelodau staff gwasanaeth ym mhob digwyddiad. Rydym yn gobeithio denu amrywiaeth o ddefnyddwyr a staff gwasanaeth ar draws yr ardal.

Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn anfon gwahoddiadau ar gyfer y digwyddiadau hyn drwy system archebu ar-lein – Event Brite. Cewch fynediad yn rhad ac am ddim.

Os hoffech ddod i ddigwyddiad yn eich ardal, edrychwch am wahoddiad a chofrestrwch ar-lein, gan nodi eich iaith ddewisol ac unrhyw anghenion o ran mynediad.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cefnogi unrhyw un nad oes ganddo fynediad at y we i gofrestru ar ei ran – gellir hefyd gysylltu ag AGIC yn uniongyrchol a gallwn drefnu hyn.

Byddwch yn cael cadarnhad dros e-bost o'ch tocyn cyn y digwyddiad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adolygiad hwn, neu os hoffech siarad ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, cysylltwch â ni ar 0300 062 8163 neu anfonwch e-bost at hiw@gov.wales

Diolch am eich cymorth.

Yn gywir,

Erica Emes



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Arweinydd Prosiect, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau